

# Bywoliaeth Reithoral Y Bontfaen

## Blwyddyn A

### Sul Cyntaf yr Ystwyll

### Bedydd Crist

### Emyn I

O fy lesu bendigedig,  
unig gwmni f'enaid gwan,  
ymhob adfyd a thralodion  
dal fy ysbryd llesg i'r lan;  
a thra'm teflir yma ac acw  
ar anwadal donnau'r byd  
cymorth rho i ddal fy ngafael  
ynot ti, sy'r un o hyd.

Rhof fy nhroed y fan a fynnwyf  
ar sigledig bethau'r byd,  
ysgwyd mae y tir o danaf,  
darnau'n cwmpo i lawr o hyd;  
ond os caf fy nhroed i sengi  
yn y dymestl fawr a'm chwyth,  
ar dragwyddol graig yr oesoedd,  
dyna fan na sigla byth.

Pwysu'r bore ar fy nheulu,  
colli'r rheini y prynhawn;  
pwysu eilwaith ar gyfeillion,  
hwythau'n colli'n fuan iawn;  
pwysu ar hawddfyd – hwnnw'n siglo,  
profi'n fuan newid byd:  
pwysu ar lesu, dyma gryfder  
sydd yn dal y pwysau i gyd.

*Eben Fardd, 1802-63*

## Y Colect

Dad tragwyddol, a ddatguddiaist ym  
medydd lesu ei fod yn Fab i ti, gan ei  
eneinio â'r Ysbryd Glân: caniatâ i ni a

## Year A

### The First Sunday of Epiphany

### The Baptism of Christ

### Hymn I

O my wondrous, wondrous Jesus,  
Lone companion of my soul,  
In all worries, tribulations,  
Give my spirit thy support;  
While I'm cast upon life's ocean,  
On the sea's unstable waves,  
Steadfastly, O hold and keep me  
In thy all embracing arms.

Let me tread where'er I wander  
On this ever moving earth,  
All the land beneath me trembles,  
Dust and ruins all around;  
If I could but keep my foothold  
Despite tempest, despite storm,  
On the eternal Rock of Ages:  
This is ground that never quakes.

Oft times leaning on my dear ones,  
Then I lose them one by one;  
Lean again on friends, companions,  
Very soon they're also gone:  
Lean on pleasure - none is stable,  
All my world, it changes so,  
Lean on Jesus - here's true strength  
Which will hold the world's whole weight.

*Tr. Gwynn & Ifor ap Gwilym*

## The Collect

Eternal Father, who at the baptism of  
Jesus revealed him to be your Son,  
anointing him with the Holy Spirit: grant

anwyd drachefn o ddŵr a'r Ysbryd,  
lawenhau i gael ein galw yn blant i ti;  
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,  
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn  
undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn  
awr ac am byth. **Amen.**

## **Eseia 42.1-9**

Darlleniad o'r proffwyd Eseia

"Dyma fy ngwas, yr wyf yn ei gynnal,  
f'etholedig, yr wyf yn ymhyfrydu ynddo.  
Rhoddais fy ysbryd ynddo, i gyhoeddi  
barn i'r cenedloedd. Ni fydd yn gweiddi  
nac yn codi ei lais, na pheri ei glywed yn  
yr heol. Ni fydd yn dryllio corsen ysig,  
nac yn diffodd llin yn mygu; bydd yn  
cyhoeddi barn gywir. Ni fydd yn diffodd,  
ac ni chaiff ei ddryllio, nes iddo osod  
barn ar y ddaear; y mae'r ynysoedd yn  
disgwyl am ei gyfraith." Fel hyn y dywed  
Duw, yr Arglwydd, a greodd y nefoedd  
a'i thaenu allan, a luniodd y ddaear a'i  
chynnyrch, a roddodd anadl i'r bobl sydd  
arni, ac ysbryd i'r rhai sy'n rhodio ynddi:  
"Myfi yw'r Arglwydd; gelwais di mewn  
cyfiawnder, a gafael yn dy law; lluniais di  
a'th osod yn gyfamod pobl, yn oleuni  
cenedloedd; i agor llygaid y deillion, i  
arwain caethion allan o'r carchar, a'r rhai  
sy'n byw mewn tywyllwch o'u cell. Myfi  
yw'r Arglwydd, dyna fy enw; ni roddaf fy  
ngogoniant i neb arall, na'm clod i  
ddelwau cerfiedig. Wele, y mae'r pethau  
cyntaf wedi digwydd, a mynegaf yn awr  
bethau newydd; cyn iddynt darddu  
'rwy'n eu hysbysu ichwi."

that we who are born again by water  
and the Spirit may rejoice to be called  
your children; through Jesus Christ your  
Son our Lord, who is alive and reigns  
with you, in the unity of the Holy Spirit,  
one God, now and for ever. **Amen.**

## **Isaiah 42.1-9**

A reading from the prophet Isaiah.

Here is my servant, whom I uphold, my  
chosen, in whom my soul delights; I have  
put my spirit upon him; he will bring forth  
justice to the nations. He will not cry or lift  
up his voice, or make it heard in the street;  
a bruised reed he will not break, and a  
dimly burning wick he will not quench; he  
will faithfully bring forth justice. He will not  
grow faint or be crushed until he has  
established justice in the earth; and the  
coastlands wait for his teaching. Thus says  
God, the Lord, who created the heavens  
and stretched them out, who spread out  
the earth and what comes from it, who  
gives breath to the people upon it and spirit  
to those who walk in it: I am the Lord, I  
have called you in righteousness, I have  
taken you by the hand and kept you; I have  
given you as a covenant to the people, a  
light to the nations, to open the eyes that  
are blind, to bring out the prisoners from  
the dungeon, from the prison those who sit  
in darkness. I am the Lord, that is my name;  
my glory I give to no other, nor my praise  
to idols. See, the former things have come  
to pass, and new things I now declare;  
before they spring forth, I tell you of them.

Dyma air yr Arglwydd.

**Diolch a fo i Dduw.**

## **Salm 29**

**A. Bendithied yr Arglwydd ei bobl â heddwoch!**

Rhowch i'r Arglwydd, fodau nefol,  
rhowch i'r Arglwydd ogoniant a nerth.  
Rhowch i'r Arglwydd ogoniant ei enw;  
ymgrymchwch i'r Arglwydd yn ysblander ei  
sancteiddrwydd. **A**

Y mae llais yr Arglwydd yn uwch na'r  
dyfroedd; Duw'r gogoniant sy'n taranu; y  
mae'r Arglwydd yn uwch na'r dyfroedd  
cryfion! Y mae llais yr Arglwydd yn  
nerthol, y mae llais yr Arglwydd yn  
ogoneddus. **A**

Y mae llais yr Arglwydd yn dryllio  
cedrwydd; dryllia'r Arglwydd gedrwydd  
Lebanon. Gwna i Lebanon lamu fel llo, a  
Sirion fel ych ifanc. **A**

Y mae llais yr Arglwydd yn fflachio'n  
fflamau tân. Y mae llais yr Arglwydd yn  
gwneud i'r anialwch grynu; gwna'r  
Arglwydd i anialwch Cades grynu. Y mae  
llais yr Arglwydd yn gwneud i'r ewigod  
lydnu, ac yn prysuro geni'r llwdn; yn ei  
deml dywed pawb, "Gogoniant."

**A**

Y mae'r Arglwydd wedi ei orseddu uwch  
y llifeiriant, y mae'r Arglwydd wedi ei  
orseddu'n frenin byth. Rhodded yr  
Arglwydd nerth i'w bobl! Bendithied yr  
Arglwydd ei bobl â heddwoch! **A**

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

## **Psalm 29**

**R. The Lord shall give his people  
the blessing of peace**

Ascribe to the Lord, you gods, ascribe  
to the Lord glory and strength. Ascribe  
to the Lord the glory due to his name;  
worship the Lord in the beauty of  
holiness. **R**

The voice of the Lord is upon the  
waters; the God of glory thunders; the  
Lord is upon the mighty waters. The  
voice of the Lord is a powerful voice;  
the voice of the Lord is a voice of  
splendour. **R**

The voice of the Lord breaks the cedar  
trees; the Lord breaks the cedars of  
Lebanon; He makes Lebanon skip like a  
calf, and Mount Hermon like a young  
wild ox. **R**

The voice of the Lord splits the flames  
of fire; the voice of the Lord shakes the  
wilderness; the Lord shakes the  
wilderness of Kadesh. The voice of the  
Lord makes the oak trees writhe and  
strips the forests bare. And in the  
temple of the Lord all are crying,  
'Glory!' **R**

The Lord sits enthroned above the  
flood; the Lord sits enthroned as king  
for evermore. The Lord shall give  
strength to his people; the Lord shall  
give his people the blessing of peace. **R**

## **Actau 10. 34-43**

Darlleniad o'r Actau'r Apostolion

A dechreuodd Pedr lefaru: "Ar fy ngwir," meddai, "'rwy'n deall nad yw Duw yn dangos ffafriaeth, ond bod y sawl ym mhob cenedl sy'n ei ofni ac yn gweithredu cyfiawnder yn dderbyniol ganddo ef. Y gair hwn a anfonodd i blant Israel, gan gyhoeddi Efengyl tangnefedd drwy Iesu Grist; ef yw Arglwydd pawb. Gwyddoch chwi'r peth a fu drwy holl Jwdea, gan ddechrau yng Ngallilea wedi'r bedydd a gyhoeddodd Iwan — Iesu o Nasareth, y modd yr eneiniodd Duw ef â'r Ysbryd Glân ac â nerth. Aeth ef oddi amgylch gan wneud daioni ac iacháu pawb oedd dan ormes y diafol, am fod Duw gydag ef. Ac yr ydym ni'n dystion o'r holl bethau a wnaeth yng ngwlad yr Iddewon ac yn Jerwsalem. A lladdasant ef, gan ei grogi ar bren. Ond cyfododd Duw ef ar y trydydd dydd, a pheri iddo ddod yn weledig, nid i'r holl bobl, ond i dystion oedd wedi eu rhagethol gan Dduw, sef i ni, y rhai a fu'n cydfwyta ac yn cydyfed ag ef wedi iddo atgyfodi oddi wrth y meirw. Gorchynnodd i ni bregethu i'r bobl, a thystiolaethu mai hwn yw'r un a benodwyd gan Dduw yn farnwr y byw a'r meirw. I hwn y mae'r holl broffwydi'n tystio, y bydd pawb sy'n credu ynddo ef yn derbyn maddeuant pechodau trwy ei enw."

Dyma air yr Arglwydd.

**Diolch a fo i Dduw.**

## **Acts 10. 34-43**

A reading from the Acts of the Apostles

Peter began to speak to those assembled in the house of Cornelius. 'I truly understand that God shows no partiality, but in every nation anyone who fears him and does what is right is acceptable to him. You know the message he sent to the people of Israel, preaching peace by Jesus Christ – he is Lord of all. That message spread throughout Judea, beginning in Galilee after the baptism that John announced: how God anointed Jesus of Nazareth with the Holy Spirit and with power; how he went about doing good and healing all who were oppressed by the devil, for God was with him. We are witnesses to all that he did both in Judea and in Jerusalem. They put him to death by hanging him on a tree; but God raised him on the third day and allowed him to appear, not to all the people but to us who were chosen by God as witnesses, and who ate and drank with him after he rose from the dead. He commanded us to preach to the people and to testify that he is the one ordained by God as judge of the living and the dead. All the prophets testify about him that everyone who believes in him receives forgiveness of sins through his name.'

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

## **Mathew 3.13-17**

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Mathew

### **Gogoniant i ti, O Arglwydd.**

Yna daeth Iesu o Galilea i'r Iorrdonen at Iwan i'w fedyddio ganddo. Ceisiodd Iwan ei rwystro, gan ddweud, "Myfi sydd ag angen fy medyddio gennyt ti, ac a wyt ti yn dod ataf fi?" Meddai Iesu wrtho, "Gad i hyn fod yn awr, oherwydd fel hyn y mae'n weddus i ni gyflawni popeth y mae cyfiawnder yn ei ofyn." Yna gadodd Iwan iddo ddod. Bedyddiwyd Iesu, ac yna, pan gododd allan o'r dŵr, dyma'r nefoedd yn agor iddo, a gwelodd Ysbryd Duw yn disgyn fel colomen ac yn dod arno. A dyma lais o'r nefoedd yn dweud, "Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu."

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

### **Moliant i ti, O Grist.**

## **Yr Ymbiliau**

Mewn ufudd-dod i'r Arglwydd a fu'n ufudd i'r cyflwr dynol er ein mwyn ni ac a roes i ni'r bedydd sanctaidd yn esiampl, offrymwn ein gweddïau.

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Gan fod Cristnogion yn un mewn bedydd, chwala'r ffiniau sydd yn ein cadw ni ar wahân . . .Gwneir pob peth yn newydd yn Iesu dy Fab; adnewyddo dy Eglwys, a benodwyd i'w hysbysu ef i'r holl genhedloedd.

## **Matthew 3.13-17**

Listen to the gospel of Christ according to St Matthew

### **Glory to you, O Lord.**

Jesus came from Galilee to John at the Jordan, to be baptized by him. John would have prevented him, saying, 'I need to be baptized by you, and do you come to me?' But Jesus answered him, 'Let it be so now; for it is proper for us in this way to fulfil all righteousness.' Then he consented. And when Jesus had been baptized, just as he came up from the water, suddenly the heavens were opened to him and he saw the Spirit of God descending like a dove and alighting on him. And a voice from heaven said, 'This is my Son, the Beloved, with whom I am well pleased.'

This is the Gospel of the Lord.

### **Praise to you, O Christ.**

## **The Intercessions**

In obedience to the Lord who for our sake was obedi-ent to the human condition and gave us the example of holy baptism, we offer our prayers.

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

As Christians are united in baptism, break down the barriers that keep us apart... All things are made new in Jesus your Son: renew your Church, appointed to make him known to all nations.

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Agor y llygaid a ddallwyd gan werthoedd gau, rhyddha'r rhai a gaethiwir yng ngharchar eu pechodau, goleua dywyllwch anwybodaeth a chyfeiliornad, er mwyn i'r byd fod yn rhydd yn wir.

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Llanw ni â chariad Iesu, a ddatguddiwyd i ni drwy ffydd ... Wrth i'n bywydau gyffwrdd â bywydau eraill, helpa ni i rannu'r newydd da mai ef yw ein Gwaredwr.

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Edrych mewn tosturi ar y rhai y cleisiwyd eu bywydau ac y diffoddwyd eu gobeithion ... Dyro iddynt fywyd Newydd drwy'r Ysbryd Gian a ddisgynnodd ar Iesu, yr anwylyd, yn ei fedydd.

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Cyflwynwn i'th gariad y rhai a olchwyd yn nŵr y bedydd, a oedd yn agos atat ti yn y bywyd hwn, ac sydd yn nes atat yn awr yn y bywyd tragwyddol ... Trwy dy ras bydded i ni a hwy fod yn un ynot ti.

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Wedi'n golchi yn nŵr edifeirwch a bywyd newydd, gweddiwn, fel aelodau trwy obaith o Deyrnas Dduw.

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Open the eyes that are blind with false values, liberate those who are held in the prison of their sins, lighten the darkness of ignorance and error, that the world may be truly free.

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Fill us with the love of Jesus, revealed to us in faith ... As our lives touch other lives, make us agents of the good news that he is our Saviour.

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Look with pity on those whose lives are bruised, whose hopes are quenched... Give them new life through the Holy Spirit who descended on Jesus, the beloved, in his baptism.

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

We commend to your love those who, washed in the water of baptism, were close to you in this life and now are closer in the life eternal... By your grace, may we and they be one in you.

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Being washed with the water of repentance and new life, we pray as members through hope of the Kingdom of God.

Dad Trugarog,  
**derbyn y gweddiâu hyn**  
**er mwyn dy Fab,**  
**ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.**

### **Emyn 2**

Arglwydd Iesu Grist, daethost atom ni,  
un wyt ti â ni, blentyn Mair;  
ti sy'n glanhau'n pechodau ni,  
hael yw dy ddoniau da, di-ri';  
Iesu, o gariad molwn di,  
Arglwydd byw.

Arglwydd Iesu Grist, heddiw a phob dydd  
dysg in weddi ffydd, ti, Fab Duw;  
dyma d'orchymyn di i ni,  
"Gwnewch hyn er cof amdanaf i,"  
treiddia dy nerth i'n bywyd ni,  
Arglwydd byw.

Arglwydd Iesu Grist, daethost atom ni,  
cnawd o'n cnawd wyt ti, blentyn Mair;  
ar ôl dy groes a'th angau prudd  
codaist o'r bedd i'n rhoi yn rhydd,  
gad inni ynot weld drwy ffydd,  
Arglwydd byw.

Arglwydd Iesu Grist, deuaif atat ti,  
rhof fy oes i ti, O Fab Duw:  
gwir yw dy holl orchmynion di,  
rhoddion dy ras sy'n faeth i mi,  
treiddia dy nerth i'm bywyd i,  
Arglwydd byw.

*Patrick Appleford*

*cyf. R. Glyndwr Williams, 1918-2007*

*Hawlfraint © 1960 Josef Weinberger Ltd*

Merciful Father,  
**accept these prayers**  
**for the sake of your Son,**  
**our Saviour Jesus Christ. Amen.**

### **Hymn 2**

Lord Jesus Christ you have come to us  
You are one with us, Mary's Son.  
Cleansing our souls from all their sin  
pouring Your love and goodness in  
Jesus our love for you we sing,  
living Lord.

Lord Jesus Christ now and every day  
Teach us how to pray, Son of God.  
You have commanded us to do  
this in remembrance Lord of you  
Into our lives your power breaks through,  
living Lord.

Lord Jesus Christ, you have come to us  
Born as one with us, Mary's Son.  
Led out to die on Calvary,  
risen from death to set us free,  
living Lord Jesus help us see  
You are Lord.

Lord Jesus Christ I would come to you  
live my life for you, Son of God.  
All your commands I know are true,  
your many gifts will make me new,  
into my life your power breaks through,  
living Lord.

*Patrick Appleford (1925-2018)*

## Ôl Gymun

Arglwydd Dduw, wedi ein hadnewyddu  
gan y rhoddion sanctaidd hyn, ceisiwn  
dy drugaredd: fel, trwy wrando'n  
ffyddlon ar dy unig Fab, ac ufuddhau i  
gymhelliad yr Ysbryd, y byddwn yn blant  
i ti mewn enw ac mewn gwirionedd  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## Emyn 3

Pererin wyf mewn anial dir  
    yn crwydro yma a thraw,  
ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr  
    fod tŷ fy Nhad gerllaw.

Ac mi debygaf clywaf sŵn  
    nefolaidd rai o'm blaen,  
wedi gorchfygu a mynd drwy  
    dymhestloedd dŵr a than

Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, ledia'r ffordd,  
    bydd imi'n niwl a thân;  
ni cherdda' i'n gywir hanner cam  
    oni byddi di o'm blaen.

Mi wyraf weithiau ar y dde  
    ac ar yr aswy law;  
am hynny arwain, gam a cham,  
    fi i'r baradwys draw.

Mae hiraeth arnaf am y wlad  
    lle mae torfeydd di-ri'  
yn canu'r anthem ddyddiau'u hoes  
    am angau Calfarî.

*William Williams, 1717-91*  
*tôn: Amazing Grace*

## Post Communion

Refreshed by these holy gifts, Lord God,  
we seek your mercy: that by listening  
faithfully to your only Son, and being  
obedient to the prompting of the Spirit,  
we may be your children in name and in  
truth through Jesus Christ our Lord.  
**Amen.**

## Hymn 3

A pilgrim am I in a desert land  
    Wandering hither and yon,  
And in a kind of hope every hour  
    That my Father's house is at hand.

And I shall most likely hear  
    Some heavenly sound before me,  
Having overcome and gone through  
    Tempests of water and fire.

Come, Holy Spirit, widen the way,  
    Be to me cloud and fire;  
I will not walk correctly half a step  
    Except thou be before me.

I veer at times to the right  
    And to the left hand;  
Therefore lead, step by step,  
    Me to the paradise yonder.

I have a longing for the land  
    Where multitudes without number  
Are singing the anthem the days of their age  
    About the death of Calvary.

*tr. 2008 Richard B Gillion*